# Trefn Gwasanaeth

Cynhaeaf o obaith

Mae'r canllaw Trefn Gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i greu eich gwasanaeth Cynhaeaf eich hun. Defnyddiwch hwn ynghyd â'n Pecyn Gweddi Cynhaeaf i ddewis gweddi, caneuon a darlleniadau ar gyfer eich addoliad.

## Ymatebion Agoriadol

Heuwch hadau cyfiawnder,
**Ceisio'r Arglwydd.**
Trin tir eich calon galed.
**Ceisio'r Arglwydd.**
Rho siâr dy gnydau iddo fe.
**Ceisio'r Arglwydd.**
A chewch gynhaeaf o gariad gen i.
**Ceisio'r Arglwydd.**
(Hosea 10:12 a Diarhebion 3:9)

## Stori Maryama

Clywch gan Maryama, ffermwr, arweinydd cymunedol a fam gweddw i'w phedair plentyn. Mae Maryama yn byw ym mhentref Njualahun, Sierra Leone.
Gallwch ffeindio ei stori ar ddiwedd y pecyn hwn.
Gallwch hefyd lawrlwytho sleidiau a fydd yn eich tywys trwy'r stori yn eich gwasanaethau.

## Gweddi o Edifeirwch a Galarnad

Gweddïwn ar yr Arglwydd, gan gyffesu ein hofnau a'n methiannau.

Mae'r bwystfilod gwyllt yn aros gyda thi yn yr anialwch.
Mae'r coed yn curo eu dwylo mewn clod i ti.
Mae creaduriaid y môr yn cyflawni dy air.
*Ond rydyn ni'n troi ein cefn arnat.*
**Arglwydd Trugarog, trugarha wrthym.**

Mae'r ddaear yn eiddo i ti a phopeth sydd ynddi.
Dywedaist mai da ydoedd.
Yn dy law di y mae bywyd pob peth byw.
*Ond rydyn ni'n trin y ddaear fel pe bai'n eiddo i ni.*
**Arglwydd Trugarog, trugarha wrthym.**

Mae'r tir yn galaru.
Mae'r cerrig yn galw allan.
Mae'r greadigaeth yn ocheneidio ac yn dioddef.
*Ond ein buddiannau ni yw'r unig bethau a glywn.*
**Arglwydd Trugarog, trugarha wrthym.**

*Gellir bod yn ddistaw wrth i'r rhai sy'n bresennol gofio ein hangen am faddeuant a'n galar dros yr argyfwng hinsawdd.*

**Arglwydd Trugarog, Creawdwr pob un, gwranda arnom a helpa ni.**
**Amen.**

## Ymatebion (yn seiliedig ar Salm 146)

**Dw i'n mynd i foli'r Arglwydd ar hyd fy mywyd.**

Mae'r un mae Duw Jacob yn ei helpu wedi ei fendithio'n fawr,
Yr un sy'n dibynnu ar yr Arglwydd ei Dduw,
y Duw a wnaeth y nefoedd, y ddaear,
y môr, a phopeth sydd ynddyn nhw;
mae e bob amser yn cadw ei air,
yn rhoi cyfiawnder i'r rhai sy'n cael eu gorthrymu;
a bwyd i'r newynog.
**Dw i'n mynd i foli'r Arglwydd ar hyd fy mywyd.**

Mae'r Arglwydd yn gollwng carcharorion yn rhydd;
Mae'r Arglwydd yn rhoi eu golwg i bobl ddall.
Mae'r Arglwydd yn gwneud i bawb sydd wedi eu plygu drosodd sefyll yn syth;
Mae'r Arglwydd yn caru'r rhai sy'n gwneud beth sy'n iawn.
**Dw i'n mynd i foli'r Arglwydd ar hyd fy mywyd.**

Mae'r Arglwydd yn gofalu am y mewnfudwyr ac yn cynnal y plant amddifad a'r gweddwon.
Ond mae e'n gwneud i'r rhai drwg golli eu ffordd.
**Dw i'n mynd i foli'r Arglwydd ar hyd fy mywyd.**

Molwch yr Arglwydd!
**Dw i'n mynd i foli'r Arglwydd ar hyd fy mywyd.**

## Darlleniadau:

## Deuteronomium 26:1-11

## Philipiaid 4:4-9

## Ioan 6:25-35

## Sgwrs/Pregeth

Am ddarlleniadau a myfyrdodau eraill a awgrymir ar ddarlleniadau'r llithiau, cymerwch gip ar ein Pecyn Nodiadau Pregeth y Cynhaeaf.

## Gweddi am Obaith

Dduw gobaith,
Gyda thi, does dim byd yn amhosib.
Mae dy addewidion yn parhau,
Mae dy ysbryd yn ein cynnal.
Sefydla ynom obaith i'th fyd;
Gobaith sy'n ein symud,
Fel tân ym mêr ein hesgyrn,
Fel blaguryn yn tyfu o'r pridd,
Fel nant sy'n byrlymu'n barhaus.
Meithrin ynom weledigaeth ar gyfer newid. Ennyn ynom awydd i sicrhau cyfiawnder, I droi'n gobaith yn weithred,
Gwneler dy ewyllys.
**Amen.**

## Gweddi dros Fyd Duw

### Cartref

Gweddïwch dros achosion sy'n agos i'ch cartref, fel eich banc bwyd lleol a phobl sy'n dioddef tlodi yn eich cymuned. Gweddïwch drosoch chi eich hun, eich teulu a'ch ffrindiau, er mwyn i Dduw eich tywys wrth i chi weithredu dros fyd mwy cyfiawn.

### Ein cymdogion

Gan gofio ein bod yn cael ein galw i garu ein cymdogion fel ni ein hunain, gweddïwch dros ein cymdogion byd-eang mewn lleoedd fel Zimbabwe. Gweddïwch dros y rhai sy'n dioddef effeithiau mwyaf yr argyfwng hinsawdd.

### Grym

Gweddïwch dros y rhai sydd â grym gwleidyddol ac economaidd, y byddant yn gweithredu i daclo ansicrwydd bwyd ac achosion yr argyfwng hinsawdd. Gweddïwch dros y rhai sydd wedi'u heithrio o rym, na fyddant yn cael eu gwthio i'r cyrion mwyach.

### Yr Amgylchedd

Gweddïwch dros y rhai sy'n gweithio i atgyweirio a gwella'r niwed rydyn ni wedi'i wneud i'r byd naturiol. Gweddïwch dros brosiectau sy'n rhannu technegau ffermio amgylcheddol cynaliadwy. Gweddïwch dros achosion amgylcheddol sy'n agos at eich calon.

## Gweddi o Ddiolchgarwch ac Anfon

O Dduw, diolchwn i ti am y rhoddion sydd o'n cwmpas,
Sy'n llifo o'n cymdeithas,
Sy'n tyfu o'n gweithredoedd yn dy enw di.
Ysbrydola ni â'th Ysbryd,
Anoga ni i chwilio am ffyrdd newydd o wrthsefyll anghyfiawnder,
A chodi llais dros y rhai mewn angen.
Anfon ni allan wedi'n hadfywio,
er mwyn i ni wneud gwaith dy deyrnas.
Gofynnwn hyn yn dy enw, Arglwydd.
**Amen.**

## Bendith y cynhaeaf

Boed i Dduw ein Creawdwr eich bendithio
A peri bod eich dyddiau'n ffrwythlon.
Boed i Dduw ein Gwaredwr eich arwain.
A gwneud eich ffyrdd yn gyfiawn.
Boed i Dduw ein Cysurwr eich nerthu,
a llenwi eich calonnau â gobaith.
**Amen.**

# Stori Maryama

**Mae Maryama yn gallu darparu i'w phlant gan ei bod hi wedi cymryd rhan yng Nghymdeithas Cynilo a Benthyciadau'r Pentref sydd wedi ei chefnogi gan partner Cymorth Cristnogol**

Ffermwr yw Maryama sy'n byw ym mhentref Njualahun yn Sierra Leone. Yn anffodus, bu farw gŵr Maryama a'i gadael hi i gefnogi eu pedwar o blant. Mae'r argyfwng hinsawdd wedi effeithio ar gynnyrch cnydau Maryama yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â gweithio'r tir, byddai Maryama yn cynaeafu cnau daear ac yn echdynnu'r olew i'w werthu ond nid oedd hyd yn oed hyn yn ddigon i gael dau ben llinyn ynghyd. Roedd angen iddi fuddsoddi yn ei ffermio i sicrhau dyfodol diogel i'w theulu ond nid oedd ganddi lawer o opsiynau. Canfu Maryama ei hun yn cymryd benthyciadau nad oeddent yn gynaliadwy iddi. Fel y dywedodd wrth Cymorth Cristnogol **'… roedd llawer o heriau … Mae ad-dalu benthyciadau wedi bod yn broblem ddifrifol.'**

Bu partner Cymorth Cristnogol, WoNES, yn gweithio gyda Maryama a'i chymdogion i'w helpu i sefydlu Cymdeithas Cynilo a Benthyciadau Pentref (CCBP) yn eu cymuned. Mae CCBP yn grymuso menywod fel Maryama i adennill rheolaeth dros eu harian, eu ffermydd a'u dyfodol. Maent yn cynnig lle i hyfforddi menywod mewn sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth economaidd. Mae CCBP yn galluogi eu haelodau i gynnig a rheoli benthyciadau llog isel fel cydweithfa. Mae aelodau hefyd yn cynilo gyda'i gilydd. Mae pob CCBP yn cael ei arwain gan bwyllgor o fewn y gymuned.



*Maryama, ffermwr, aelod o bwyllgor CCBP ac mam i bedwar o blant ym mhentref Njualahun, Sierra Leone.*

Dywed Maryama wrth Cymorth Cristnogol:

**[Mae'r CCBP] wedi bod yn gefnogaeth i mi oherwydd fy mod wedi gallu talu ffioedd ysgol fy mhlant. Mae'n fendith i ni... Bydd hyn yn ein help i gefnogi ein plant i gael addysg... Pan fyddaf yn mynd i'r fferm, yn ffermio, mae'r arweinyddiaeth sy'n deillio o'r CCBP wedi bod yn gefnogaeth i mi... Mae'r CCBP yn grymuso ni fel menywod. Mae wedi helpu i'n uno ni fel cymuned, yn enwedig y menywod ac mae'n gryfder i ni. Mae'n ein grymuso ni – does dim rhaid ymgynghori â rhywun i rhoi benthyciad neu rhywbeth arall i chi. Dylai menywod gael pŵer a dylent allu gwneud penderfyniadau.'**

Mae Maryama a'i chymuned yn dal i wynebu heriau wrth i effaith yr argyfwng hinsawdd gynyddu. Mae mynediad at ddŵr a glanweithdra yn parhau i fod yn anodd. Ond drwy weithio gyda WoNES a datblygu'r CCBP, mae gan Maryama a'i chymdogion fwy o opsiynau ar gyfer y dyfodol nawr.

Gobaith Maryama yw y bydd **'yr Arglwydd yn darparu mwy'** trwy waith WoNES a bydd CCBP yn **'ymestyn i gymunedau eraill fel y gallant elwa fel ni.'**

Gallwch chi helpu i wireddu gobaith Maryama yn ystod y cynhaeaf hwn trwy godi arian, gweithredu a gweddïo gyda Cymorth Cristnogol.



*Maryama yn dal y cnau daear mae hi'n cynaeafu.*

Beth fyddwch chi'n ei wneud?

- Cynhaliwch gasgliad ar gyfer apêl cynhaeaf Cymorth Cristnogol yn eich gwasanaeth
- Defnyddiwch ein label tun arbennig i gynrychioli eich cefnogaeth at Cymorth Cristnogol pan fyddwch chi'n casglu bwyd ar gyfer achosion lleol
- Cynhaliwch bryd bwyd dod a rhannu gyda chwis neu grefft cynhaeaf i godi arian
- •Defnyddiwch ein matiau bwrdd y gellir eu hargraffu yn eich swper cynhaeaf i gael pobl i siarad am yr heriau yn Sierra Leone

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Elusen Eng a Chymru rhif 1105851 Elusen Albanaidd na. SC039150 Cwmni Rhif 5171525. Cymorth Cristnogol Iwerddon: NI Elusen Nac oes. NIC101631 cwmni na. NI059154 ac elusen ROI rhif 20014162 Cwmni rhif 426928.The Christian Aid yw nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol